Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

10


Future Generations Report 2025

# Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol2025

# Future Generations Report 2025

## Iechyd a Llesiant
## Health and Well-being

Marie Brousseau-Navarro, Deputy Future Generations Commissioner



Cymru Can: Missions and Areas of Focus 09

IMPLEMENTATION AND IMPACT 12
CLIMATE AND NATURE 27
HEALTH AND WELL-BEING 47
CULTURE AND WELSH LANGUAGE 65
A WELL-BEING ECONOMY 84
FOOD 100
BUDGET SETTING FOR FUTURE GENERATIONS 110

01 →

The Future is Now

03 →

Our support for wider implementation 136

04 →

Setting good well-being objectives and steps 118

02 →

Annexes 140

05 →

## Cymru Can: Cenadaethau a Meysydd Ffocws 09

GWEITHREDU AC EFFAITH 12

HINSAWDD A NATUR 27

IECHYD A LLESIANT 47

DIWYLLIANT A'R IAITH 65

ECONOMI LLESIANT 84

BWYD 100

CYLLIDEB AR GYFER CENEDLAETHAU'R DYFODOL 110

01 →

## Pennu Amcanion a Chamau Llesiant Da 118

02 →

## Mae'r Dyfodol Nawr 126

03 →

## Beth rydym yn ei wneud i'ch helpu 136

04 →

## Atodiadau 140

05 →

# Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 – casgliadau cyffredinol

Mae pobl yng Nghymru yn haeddiannol falch bod gennym weledigaeth a rennir ar gyfer y Gymru a garem ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r heriau a wynebwn yn sylweddol, ond nid ydynt yn anorchfygol.

Mae gohirio gweithredu yn gwneud newid yn ddrytach ac yn anoddach. Bydd cenedlaethau'r dyfodol yn byw gyda chanlyniadau ein penderfyniadau.

Mae strategaeth economaidd llywodraeth y DU sy'n canolbwyntio ar dwf yn unig yn rhoi llesiant mewn perygl.

Mae targed sero net sector cyhoeddus Cymru ar gyfer 2030 yn sbardun pwysig ar gyfer newid, ond ni fydd llawer o gyrff cyhoeddus yn ei gyrraedd heb adnoddau ychwanegol.





# Future Generations Report 2025 - overall conclusions

People in Cymru are rightly proud that we have a shared vision for the Wales we want for future generations.

The challenges we face are significant, but they are not unsurmountable.

Delaying action makes change more expensive and difficult. Future generations will live the consequences of our decisions.

A UK Government strategy focused solely on growth puts well-being at risk.

The Welsh public sector's net zero target for 2030 is an important driver for change, but many public bodies will not meet it without additional resources.

# Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 –casgliadau cyffredinol

Mae cyllidebau atal yn cael eu torri, ag weithgareddau hanfodol yn cael eu dad-flaenoriaethu.

Mae ein system fwyd yn anghynaliadwy.

Mae diwylliant mewn argyfwng.

Mae ymddiriedaeth yn ein sefydliadau cyhoeddus yn dirywio.

Mae capasiti'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwegian oherwydd y galw cynyddol a blynyddoedd o galedi.

Mae strwythurau partneriaeth a chyllid yn rhy gymhleth.



Future Generations Report 2025

# Future Generations Report 2025 -overall conclusions

Prevention budgets are being cut, and essential activities deprioritised.

Our food system is unsustainable.

Culture is in crisis.

Trust in our public institutions is declining.

The capacity of the Welsh public sector is at breaking point due to rising demand and years of austerity.

Partnership and funding structures are too complicated.

# Argymhellion

**Llywodraeth Cymru:**

- Mae cyfanswm o **50** o argymhellion yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae45 o argymhellion - 27o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- Mae **18** o argymhellion ychwanegol ar gyfer cyrff cyhoeddus hefyd yn berthnasol i Lywodraeth Cymru.

**Cyrff Cyhoeddus:**

- Mae cyfanswm o **50** o argymhellion yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae **23** o argymhellion ar gyfer cyrff cyhoeddus.





# Recommendations

**Welsh Government:**

- There are **50** recommendations in total in the Future Generations Report.
- **45** recommendations apply to Welsh Government, **27** specific for Welsh Government.
- **18** recommendations for public bodies including Welsh Government.

**Public bodies:**

- There are **50** recommendations in total in the Future Generations Report.
- There are **23** recommendations for public bodies.


# Iechyd a Llesiant

## Health and well-being

# Cenadaethau

- Mae cyrff cyhoeddus yn aml yn ei chael hi'n anodd deall llesiant diwylliannol
- Mae heriau cynyddol yn rhoi gwasanaethau diwylliant a hamdden dan fygythiad
- Nid yw cynlluniau ac amcanion llesiant yn gwneud digon i sicrhau bod canlyniadau llesiant diwylliannol yn cael eu cefnogi

- Mae iechyd yn ganolog i'n lles
- Mae lefelau salwch ac anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hatal yn parhau i fod yn uchel
- Gyda thwf rhagamcanol yn y galw am ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae cost ariannol yn dod yn fwyfwy anghynaladwy




- Mae angen gweithredu'r Ddeddf a'i huchelgais yn fwy effeithiol a chyda brys
- Mae bwlch rhwng dyhead a chyflawni
- Mae angen i'r ddeddfwriaeth fyw i'w llawn botensial

- Nid yw cynnydd pendant yn y maes hwn yn ddigonol ar hyn o bryd. Rydym mewn perygl o beidio â chyrraedd ein targedau
- Heb newid yn ein dull gweithredu, bydd newid yn yr hinsawdd yn achosi mwy o ddinistr a cholled
- Mae 1 o bob 6 rhywogaeth yng Nghymru, ac mae 1 o bob 3 mamal yn wynebu difodiant heb ymyrraeth.


- Nid yw ein heconomi yn cyflawni eto ar gyfer yr holl nodau llesiant
- Mae'r argyfwng costau byw yn ehangu anghydraddoldeb economaidd yng Nghymru
- Tlodi yn cynyddu

Mae ein heconomi yn defnyddio adnoddau naturiol ar gyfradd gyflymach nag y gallwn eu hailgyflenwi.

# Missions

- Public bodies often find cultural well-being difficult to understand
- Increasing funding challenges put culture and leisure services under threat
- Well-being plans and objectives are not doing enough to ensure cultural well-being outcomes are supported

- Health is central to our well-being
- Levels of preventable illness and health inequalities remain high
- With projected growth in demand for our health and social care services, financial cost is becoming increasingly unsustainable




- The Act and its ambition need to be implemented more effectively and with urgency
- There is a gap between aspiration and delivery
- The legislation needs to live to its full potential

- Tangible progress in this area is currently insufficient. We risk not meeting our targets
- Without change in our approach, climate change will cause more destruction and loss
- 1 in 6 species in Wales, and 1 in 3 mammals is facing extinction without intervention.

- Our economy is not yet delivering for all of the well-being goals
- The cost-of-living crisis is widening economic inequality in Wales
- Poverty is increasing
- Our economy uses natural resources at a faster rate than we can replenish them

# Iechyd a Llesiant
# Health and Well-being

- Tri maes pryder mwyaf a godwyd gyda mi wrth osod fy mlaenoriaethau yn 2023.
- Mae'r GIG yn parhau I fod yn un o'n sefydliadau mwyaf gwerthfawr, gan gyfrif am tua hanner cyllideb Llywodraeth Cymru. Ac eto, dim ond 10% y mae gofal meddygol yn ei gyfrannu at ein canlyniadau iechyd cyffredinol.
- Y dylanwadau mwyaf ar iechyd yw amodau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol — ffactorau y mae'n rhaid i bob corff.

- Top three areas of concern raised with me when setting my priorities in 2023.
- The NHS remains one of our most valued institutions, accounting for around half of Welsh Government's budget.
- Disconnect, medical care contributes only 10% to our overall health outcomes. The biggest influences on health are social, cultural, economic, and environmental conditions — factors that all public bodies and employers must help address..



# Y sefyllfa yng Nghymru:

- Mae disgwyliad oes wedi gostwng am yr ail gyfnod yn olynol, gan gynnwys yn ystod y pandemig COVID-19. Mae disgwyliad oes iach hefyd wedi gostwng, tra bod marwolaethau o bob achos wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae 32% o fenywod beichiog bellach dros bwysau neu'n profi gordewdra.
- Mae lefelau boddhad bywyd a phryder ymhlith oedolion yn gwaethygu. Mae llesiant meddyliol plant wedi dirywio.
- Roedd 21% o holl bobl Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2021 a 2023. Mae gan Gymru ganran uwch o weithwyr sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol o gymharu â rhai rhannau eraill o'r DU. Mae 29% o blant Cymru yn byw mewn tlodi.
- Mae 13% o bobl yng Nghymru yn adrodd am unigrwydd, gyda chyfraddau uwch ymhlith y rhai sy'n profi amddifadedd materol, cyflyrau iechyd meddwl, neu iechyd cyffredinol gwael.



Health and well-being

# The situation in Cymru

- Life expectancy has fallen for the second consecutive period, including during the COVID-19 pandemic. Healthy life expectancy has also declined, while deaths from all causes have increased in the last year.
- 32% of pregnant women are now experiencing overweight or obesity.
- Life satisfaction and anxiety levels among adults are worsening. Children's mental well-being has declined.
- 21% of all people in Wales lived in relative income poverty between 2021 and 2023. Wales has a higher percentage of workers earning below the real living wage compared to some other parts of the UK. 29% of children in Wales live in poverty.
- 13% of people in Wales report loneliness, with higher rates among those experiencing material deprivation, mental health conditions, or poor general health.

Health and well-being

# Dyfodol iechyd yng Nghymru:

- Erbyn 2025, gallwn ddisgwyl treulio, ar gyfartaledd, 20 mlynedd olaf ein bywydau mewn afiechyd.
- Erbyn 2038, bydd nifer y bobl dros 80 oed yng Nghymru yn dyblu. Ar hyn o bryd, mae 21.6% o boblogaeth Cymru dros 65 oed, o gymharu â 18.6% yn y DU gyfan.
- Bydd cyfran sylweddol o staff y GIG a gofal cymdeithasol yn ymddeol yn y degawd nesaf, gyda llai o bobl ifanc yn ymuno â'r gweithlu.
- Erbyn 2034, rhagwelir y bydd derbyniadau i'r ysbyty yn cynyddu 20,000 ac achosion diabetes 22%.



Health and well-being

# The future of health in Wales:

- In 2025, we can expect to spend, on average, the last 20 years of our lives in ill-health, set to increase.
- By 2038, the number of people over 80 in Wales will double. Currently, 21.6% of the Welsh population is over 65, compared to 18.6% in the UK as a whole.
- A significant proportion of NHS and social care staff will retire in the next decade, with fewer young people entering the workforce.
- By 2034, hospitalisations are projected to rise by 20,000 and diabetes cases by 22%.

Findings

## 1- The focus of well-being objectives varies in relation to the wider determinants of health. Public bodies are not maximising contribution to health across all well-being goals.

---

1- Mae ffocws amcanion llesiant yn amrywio mewn perthynas â phenderfynyddion ehangach iechyd. Nid yw cyrff cyhoeddus yn gwneud y mwyaf o gyfraniad at iechyd ar draws yr holl nodau llesiant



2- Health and social care in Wales remain heavily focused on acute needs, making it difficult to shift towards the preventive and long-term approach needed for a sustainable system. Despite widespread agreement that prevention is essential, investment does not go far enough and, in some cases, is moving in the wrong direction. Cuts to public sector funding, including the infrastructure that keeps people well — such as leisure centres and green spaces — are storing up future problems. The lack of investment in prevention already has a huge cost.

---

2- Mae iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn parhau i ganolbwyntio’n drwm ar anghenion acíwt, gan ei gwneud yn anodd symud tuag at y dull ataliol a hirdymor sydd ei angen ar gyfer system gynaliadwy. Er gwaethaf cytundeb eang bod atal yn hanfodol, nid yw buddsoddiad yn mynd yn ddigon pell ac, mewn rhai achosion, mae'n symud i'r cyfeiriad anghywir. Mae toriadau i gyllid y sector cyhoeddus, gan gynnwys y seilwaith sy’n cadw pobl yn iach — fel canolfannau hamdden a mannau gwyrdd — yn storio problemau yn y dyfodol. Mae diffyg buddsoddiad mewn atal eisoes yn gost enfawr.

## Primary prevention

**Building resilience - a universal approach**

E.g. access to education, housing retrofits, safe psychological work cultures, nature recovery

## Secondary prevention

**Targeting high risks - population segmentation or place**

E.g. mental health programmes in schools; fall prevention in care homes; flood defense; climate adaption, access to green spaces; ban of unhealthy foods for children

## Tertiary prevention

**Intervening once there is a problem**

E.g. some vaccination programmes (COVID, seasonal flu), re-offending programmes, upgrades, annual screening, asbestos removal

## Acute spending:

**A remedial approach**

E.g. most clinical health, most acute services incl. vascular surgery, diabetes management programmes, temporary accommodation, repairs

## Atal sylfaenol:

**Adeiladu gwytnwch - dull cyffredinol**

E.e. mynediad at addysg, ôl-ffitio tai, diwylliannau gwaith seicolegol diogel, adferiad natur

## Atal eilaidd:

**Targedu risgiau uchel - segmentu poblogaeth neu le**

E.e. rhaglenni iechyd meddwl mewn ysgolion; atal cwymp mewn cartrefi gofal; amddiffyn rhag llifogydd; addasu i'r hinsawdd, mynediad i fannau gwyrdd; gwahardd bwydydd afiach i blant

## Atal trydyddol:

**Ymyrryd unwaith y bydd problem**

E.e. rhaglenni brechu (COVID, ffliw tymhorol), rhaglenni aildroseddu, uwchraddio, sgrinio blynyddol, tynnu asbestos

## Gwariant acíwt:

**Dull adferol**

E.e. y rhan fwyaf o iechyd clinigol, y rhan fwyaf o wasanaethau acíwt gan gynnwys llawdriniaeth fasgwlaidd, rhaglenni rheoli diabetes, llety dros dro, atgyweiriadau

## 3- Systems thinking is gaining traction across public bodies and aligns closely with the five ways of working set out in the Well-being of Future Generations Act. However, its implementation remains fragmented, limiting its potential to tackle health inequalities and improve social determinants of health.

---

3- Mae meddylfryd systemau yn dod yn fwy amlwg ar draws cyrff cyhoeddus ac yn cyd-fynd yn agos â’r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Fodd bynnag, mae ei weithrediad yn dal yn dameidiog, gan gyfyngu ar ei botensial i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwella penderfynyddion cymdeithasol iechyd.



Findings

# 4- Entrenched inequalities in Wales are exacerbated and inequality gaps are still growing.

# 4- Mae anghydraddoldebau sydd wedi ymwreiddio yng Nghymru yn gwaethygu ac mae bylchau anghydraddoldeb yn dal i dyfu.









# 5- The health and care landscape is still too complex to ensure accountability and to improve outcomes for people.

5- Mae'r dirwedd iechyd a gofal yn dal yn rhy gymhleth i sicrhau atebolrwydd ac i wella canlyniadau i bobl.



# Iechyd a Llesiant

Cyrff cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus:

19. Dylai cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydweithio, ynghyd â'r sectorau preifat a gwirfoddol, i roi'r model cymdeithasol o iechyd, creu lleoedd a/neu egwyddorion Marmot ar waith i wella'r camau gweithredu ar y penderfynyddion ehangach a lleihau anghydraddoldebau yn eu hardaloedd.
20. Dylai cyrff cyhoeddus gynnwys atal fel amcan strategol craidd mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol.
21. Dylai cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ddefnyddio asesiadau llesiant y BGC ac asesiad anghenion poblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i nodi'r anghydraddoldebau mwyaf arwyddocaol yn eu poblogaethau a datblygu cynlluniau wedi'u targedu i gau'r bwlch tegwch mewn canlyniadau iechyd.

# Health and Well-being

Public Bodies (including Welsh Government) and Public Service Boards:

19. Public bodies and Public Services Boards should work together, along with the private and voluntary sectors, to **implement the social model of health, placemaking** and/or the Marmot principles to improve action on the **wider determinants and reduce inequalities** in their areas.
20. Public bodies should include **prevention as a core strategic objective** in corporate strategies and planning.
21. Public bodies and Public Services Boards (PSB) should use the PSB well-being assessments and Regional Partnership Board population needs assessment to **identify the most significant inequalities in their populations and develop targeted plans** to close the equity gap in health outcomes.

# Iechyd a Llesiant

Llywodraeth Cymru:

16. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo Cymru I ddod yn genedl Marmot, gan addasu model Marmot ag egwyddorion wedi'u teilwra sy'n cydfynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn helpu i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant ein poblogaeth.
17. Dylai Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG sicrhau bod atal yn cael ei wreiddio ar ddechrau pob llwybr clinigol, gyda mesurau perfformiad yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r newid hwn.
18. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun I atal y cynnydd mewn gordewdra o fewn pum mlynedd, ei wrthdroi o fewn deg a chreu Cymru sy'n cefnogi pwysau iach yn ddiofyn erbyn 2035, gan leihau anghydraddoldebau.

# Health and Well-being

Welsh Government:

16. Welsh Government should commit Wales to becoming a **Marmot nation**, adapting the Marmot model with tailored principles aligned with the Well-being of Future Generations Act, to help reduce inequalities and improve the well-being of our population.
17. Welsh Government and the NHS Executive should ensure **prevention is embedded at the start of all clinical pathways**, with performance measures adjusted to reflect this shift.
18. Welsh Government should develop a **plan to halt the rise in obesity within five years**, reverse it within ten and create a Wales that supports healthy weight by default by 2035, reducing inequalities.

Good practice

# Torfaen's Marmot Approach

**As part of the first Marmot region in Wales, Torfaen County Council is redesigning service delivery and refocusing investment using the Marmot principles of health equity. A key initiative is the creation of a Prevention Hub, designed to triage all referrals and codesign or commission care in partnership with the community.**





# Dull Marmot Torfaen

Fel rhan o ranbarth cyntaf Marmot yng Nghymru, mae Cyngor Sir Torfaen yn ailgynllunio darpariaeth gwasanaethau ac yn ail-ganolbwyntio buddsoddiad gan ddefnyddio egwyddorion tegwch iechyd Marmot. Menter allweddol yw creu Hwb Atal, a gynlluniwyd i frysbennu pob atgyfeiriad a chydgynllunio neu gomisiynu gofal mewn partneriaeth â'r gymuned.

Good practice

# Well North Wales

**Betsi Cadwaladr University Health Board's Well North Wales partnership is placing communities at the heart of health transformation. This multi-agency approach works to address health inequalities and the wider determinants of health, embedding prevention across all planning and delivery. By taking a joined up approach, Well North Wales is ensuring that services are shaped by and for the communities they serve, leading to better, more sustainable health outcomes.**

# Gogledd Cymru Iach

Mae partneriaeth Gogledd Cymru iach Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gosod cymunedau wrth galon trawsnewid iechyd. Mae'r dull aml-asiantaeth hwn yn gweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion ehangach iechyd, gan wreiddio ataliaeth ar draws yr holl gynllunio a chyflawni. Drwy gymryd agwedd gydgysylltiedig, mae Gogledd Cymru Iach yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llunio gan ac ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gan arwain at ganlyniadau iechyd gwell a mwy cynaliadwy.

Examples of good practice

# Good Practice Exchange: A multi-agency approach to falls

**Powys Teaching Health Board (PTHB) has worked with the Welsh Ambulance Services NHS Trust (WAST) and Powys County Council to introduce a new approach to falls management in care homes. Early results showed a 25% reduction in WAST call outs for falls.**

## Cyfnewidfa Arfer Da: Dull amlasiantaethol o ymdrin â chwympiadau:

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a Chyngor Sir Powys i gyflwyno dull newydd o reoli cwympiadau mewn cartrefi gofal. Dangosodd canlyniadau cynnar ostyngiad o 25% yn nifer y galwadau i WAST oherwydd cwympiadau.





Good practice

# Next steps

- Follow up on recommendation implementation
- Advice on Marmot nation (alignment with the Act and implementation)
- IMTP follow up
- Stakeholder event on mental health (Strategy implementation)
- Obesity – collaboration with PHW
- Continue to showcase good practice
- Future trends
- Food
- Preventative spend pilot

# Camau nesaf

- Dilyniant ar weithredu argymhellion
- Cyngor ar genedl y Marmot (cyd-fynd â'r Ddeddf a'i gweithredu)
- Dilyniant ar y Cynllun Tymor Canolig Mewnol
- Digwyddiad rhanddeiliaid ar iechyd meddwl (Gweithredu'r strategaeth)
- Gordewdra – cydweithio â Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Parhau i arddangos arfer da
- Tueddiadau'r dyfodol
- Bwyd
- Peilot gwariant ataliol



# Understanding how public bodies invest in prevention

We will do a pilot with select bodies and map out how they are investing in the different levels of prevention. The purpose of the pilot is to:

**Gain visibility.** No public body (except WG in 2018) has mapped out or been able to identify which part of their budget is dedicated to prevention. The pilot will help understand what is visible or not in budget in terms of preventative intent.

**Understand better the different levels of prevention.** Only by looking at budget lines, specific projects and programmes can we get a shared understanding of what is meant by each level of prevention.

**Drive action and move investment upstream into primary prevention.** Once we gain visibility and understanding, we will work with Directors of Finance and Chief Execs to help convince and enable them to invest in primary prevention and in the longer term.

# Deall sut mae cyrff cyhoeddus yn buddsoddi mewn atal

Byddwn yn cynnal cynllun peilot gyda chyrff dethol ac yn mapio sut maen nhw'n buddsoddi yn y gwahanol lefelau o atal. Diben y cynllun peilot yw:

**Ennill gwelededd.** Nid oes unrhyw gorff cyhoeddus (ac eithrio Llywodraeth Cymru yn 2018) wedi mapio nac wedi gallu nodi pa ran o'u cyllideb sydd wedi'i neilltuo i atal. Bydd y cynllun peilot yn helpu i ddeall beth sy'n weladwy neu ddim yn y gyllideb o ran bwriad ataliol.

**Deall y gwahanol lefelau o atal yn well.** Dim ond drwy edrych ar linellau cyllideb, prosiectau a rhaglenni penodol y gallwn gael dealltwriaeth gyffredin o'r hyn a olygir gan bob lefel o atal.

**Ysgogi camau gweithredu a symud buddsoddiad i fyny'r afon i atal sylfaenol.** Unwaith y byddwn yn cael gwelededd a dealltwriaeth, byddwn yn gweithio gyda Chyfarwyddwyr Cyllid a Phrif Weithredwyr i helpu i'w darbwyllo a'u galluogi i fuddsoddi mewn atal sylfaenol ac yn y tymor hwy.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

10

# Diolch yn fawr

---

# Thank you

